**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU**
**SWYDD-DDISGRIFIAD**

| | |
|---|---|
| **Adran** | **Adnoddau Dynol (AD)** |
| **Tîm** | **Uned Iechyd Galwedigaethol (UIG)** |
| **Swydd** | **Nyrs Iechyd Galwedigaethol** |
| **Rhif y Swydd** | **005084** |
| **Gradd** | **Band CNB 5** |
| **Lleoliad** | **Uned Iechyd Galwedigaethol, Pont-y-clun** |
| **Yn gyfrifol i'r** | **Uwch Nyrs Iechyd Galwedigaethol (UNIG)** |

**Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth**

| **PRIF BWRPAS Y SWYDD** |
|---|
| Darparu gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol (IG) o ansawdd uchel a phroffesiynol i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) mewn modd ymroddedig a hyblyg.<br><br>Cynyddu iechyd, lles, effeithlonrwydd a morâl personél Tân ac Achub i'r eithaf a helpu i leihau'r risgiau y gallent fod yn agored iddynt yn yr amgylchedd gwaith. |

**DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU**

1. Adrodd yn uniongyrchol i'r Uwch Nyrs Iechyd Galwedigaethol (UNIG)

2. I berfformio a chynorthwyo ag archwiliadau, gweithdrefnau sgrinio a darparu cyngor IG mewn perthynas â'r canlynol:

   - Archwiliadau ac asesiadau cyn cyflogi
   - Archwiliadau meddygol arferol a monitro iechyd staff y Gwasanaeth Tân gan gynnwys ymweliadau dydd/nos i orsafoedd gyda'r uned iechyd galwedigaethol symudol pan fo angen. Bydd trwydded yrru lawn yn ofynnol.
   - Pan fo'n briodol, cyfeirio achosion meddygol at Glinigwyr Iechyd Galwedigaethol eraill, Cynghorwyr Iechyd a Ffitrwydd (HFA) neu Ffisiotherapydd

3. Cynorthwyo i gyflawni amcanion y Tîm Iechyd Galwedigaethol trwy gydweithio ac yn gefnogol ag aelodau eraill o’r Uned Iechyd Galwedigaethol.

4. Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a darparu cyngor a gwybodaeth iechyd i'r gweithwyr.

5. Cynorthwyo gyda darparu digwyddiadau a mentrau lles gweithwyr.

6. Cynorthwyo i gynnal meysydd clinigol i lefelau priodol, a rheoli stoc yn briodol.

7. I gadw cyfrinachedd bob amser.

8. Cydymffurfio â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch, Polisïau a Gweithdrefnau Gwasanaeth perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun a'r rhai y gallai eich gweithredoedd/anweithiau effeithio'n andwyol arnynt.

9. Darparu cyngor cyfrinachol i aelodau'r Gwasanaeth ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth fel y bo'n briodol

10. Cynnal dealltwriaeth o newidiadau i ddeddfwriaeth cyflogaeth ac iechyd a diogelwch a'r effeithiau ar ddarpariaeth gwasanaeth yr Uned Iechyd Galwedigaethol.

11. Cynnal goruchwyliaeth glinigol bersonol, er mwyn sicrhau datblygiad proffesiynol/diweddariad parhaus, a chydymffurfio â gofynion cofrestru'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

**GOFYNION GWASANAETH SAFONOL**

- I fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen

- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy’n gymesurol â’r raddfa a’r swydd

- Cydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot a gyflwynir o fewn yr adran neu ar draws y Gwasanaeth.

- I weithredu egwyddorion Polisïau Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni’r dyletswyddau uchod.

- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisïau a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal â rhai personau eraill a all gael eu heffeithio’n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd.

## GWERTHOEDD SEFYDLIADOL

Wrth berfformio'r rôl uchod, mae'n ofynnol i bob gweithiwr y Gwasanaeth ddilyn a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth i fod, ar bob adeg:

- Yn broffesiynol
- Yn ofalgar
- Yn barchus
- Yn ymroddgar
- Yn ddibynadwy
- Yn rymus
- Yn ddisgybledig
- Yn hydwyth